FFILM – GWYN THOMAS "Yma y mae fy lle"

Gwaith trafod posib...

RHAN 1 (7'47") Y DYDDIAU CYNNAR

1. Beth mae'r disgrifiad o 'y domen yn rhedeg' yn ei gyfleu i chi? Defnyddiwch eich synhwyrau wrth feddwl am hyn.
2. Daw 'archif' y ffilm hon o ffilm henach o lawer – sef o ffilm "Y Chwarelwr". Ymchwiliwch am hanes y ffilm yma.
3. Mae Gwyn Thomas yn disgrifio Blaenau Ffestiniog fel 'breichled o dre' – beth mae hyn yn ei gyfleu i chi?
4. Mae'r ffilm yn dweud bod y capeli yn ganolbwynt i fywydau pobl bryd hynny. Ydy hyn yn wir heddiw? Ble mae canolbwynt bywydau pobl heddiw?

RHAN 2 (7'27") ADDYSG A THYFU'N FARDD

1. Beth gafodd Gwyn Thomas o fynd ati i ddarllen y Beibl? Pa mor bwysig yw darllen mewn gwirionedd?
2. Roedd Gwyn Thomas yn unig blentyn, ond roedd ei daid yn ddylanwad mawr arno. Pwy sy'n dylanwadu arnoch chi heddiw? Sut a pham?
3. Pam bod y ffilm yn dweud fod y sinemâu yn bwysig?
4. Yn ei gerdd 'Cadwynau yn y meddwl' – mae'n disgrifio rhyddid fel 'ffeil ar gadwynau'n rhygnu' – pa fath o ddarlun mae hyn yn ei gyfleu i chi?

RHAN 3 (8'12") TEULU A GWAITH

1. Beth yw'r pethau sy'n ysbrydoli Gwyn Thomas y bardd?
2. Pa un yw eich hoff gerdd chi?
3. "Daw'r weithred hon byth byth yn ôl" – beth mae hyn yn ei olygu i chi?
4. Os mai Blaenau oedd 'lle' Gwyn Thomas – ble mae eich 'lle' chi a pham?